

Cofnodion Cyfarfod y Cyngor - 7 o'r gloch Nos Fawrth, 19 o Fehefin 2018

Presennol: Cyng. Beryl Salisbury (Cadeirydd)
Cyng. Gwilym O. Jones
Cyng. William Victor Owen
Cyng. Sharon Wyn Parry
Cyng. Einir Thomas
Cyng. Dyfed Williams

Ymddiheuriadau: Cyng. Gordon Owen

2. Datganiad o ddiddordeb: - dim.

3. Cofnodion cyfarfod 15 o Fai 2018:

Derbyniwyd fod y cofnodion yn gywir - (Cynnig Cyng. Einir Thomas, eilio Cyng. Sharon Parry.)

4. Materion yn codi o'r cofnodion:

1. Cae Chwarae - roedd McVenture Playgrounds Ltd wedi cwblhau'r gwaith ar yr arwynebau diogelwch. Cytunwyd i dderbyn eu dyfynbris am atgyweirio'r swing ac am atgyweirio'r arwyneb ar waelod y sleid. Byddai'r Clerc yn gofyn iddynt wneud y gwaith mor fuan ac sydd bosib, byddai hefyd yn chwilio am bris am baentio'r offer.

2. Gwaith Cynnal Tre Ifan – roedd y gwaith yma heb ei wneud.

3. Gwaith Cynnal Priffyrdd –Siomedig oedd gweld mai cyn lleiad bosib o waith atgyweirio oedd wedi ei wneud ar Lon Cymyran yn dilyn y gwaith mawr ar y maes awyr. Mynegwyd pryderon ynghylch y rhybudd byr a roddwyd ar gyfer cau'r ffordd ac a'r ffordd dargyfeiriad a drefnwyd yn ystod y cyfnod gwaith gosod y ceblau trydan newydd ar Ffordd Cymyran. Roedd yna dyllau pot difrifol ar Ffordd Minffordd ac yn enwedig ar y ffordd heibio Minffordd Cottage tuag at y llyn. Gofynnwyd i'r clerc yn cael gwybod pryd y byddai CSYM yn torri'r glaswellt ar y lonydd cefn – roedd sawl un yn beryglus.

4. Gweithdy Cynllunio Lle – cyfarfod cyntaf 22.5.2018 - Cyng. Dyfed Williams a Einir Thomas wedi mynychu hwn. Gofynnwyd i'r aelodau gynorthwyo i fapio'r asedau cymunedol. Byddai Medrwn Môn yn defnyddio'r wybodaeth i ymgynghori â thrigolion lleol ynghylch y math o wasanaethau sydd eu hangen yn y dyfodol.

Llofnod.....Cadeirydd.....

5 Unrhyw fater arall yn codi o'r cofnodion – dim

5. Deddf Gynllunio Gwlad a Thref:

5.1 Penderfyniadau cynllunio

32C134B – Llu Awyr

Cais llawn i godi adeilad newydd i storio 16 o seddau alldaflu gydag ystafell gynnal a chadw gysylltiedig, adeiladu ffordd fynediad newydd ynghyd â chodi ffens ddiogelwch newydd – cytunwyd.

32C208 Ty Mawr, Caergeiliog.

Cais llawn ar gyfer newid defnydd yr adeilad allanol i uned llety gwyliau - cytunwyd

32C39F Pen y Llyn Caravan Park, Llanfair yn Neubwll

Cais llawn ar gyfer ehangu'r maes carafanau teithiol cyfredol er mwyn darparu 15 o leiniau ychwanegol i garafanau teithiol – cytunwyd.

32C206 Neuadd Caergeiliog

Cais llawn ar gyfer addasu ac ehangu - cytunwyd

32C207 Ruabon, Llanfair yn Neubwll

Cais llawn ar gyfer addasu ac ehangu ynghyd a chodi modurdy ar wahan – cytunwyd.

32GD9P/2 RAF Minffordd Road, Caergeiliog

Cais llawn i osod offer chwarae – cytunwyd

5.2 Ceisiadau Cynllunio

32C209 – Ty Capel, Ffordd Caergybi, Caergeiliog.

Cais llawn i altro'r fynedfa bresennol i gerddwyr er mwyn ffurfio mynedfa i gerbydau – dim gwrthwynebiad a cynnig bod angen llinellau dwbl y nail ochr i'r fynedfa.

32C210 - 2 Trem Cymyran, Caergeiliog.

Cais llawn i addasu ac ehangu – dim gwrthwynebiad

6. Gohebiaeth Cyngor Sir Ynys Môn: - cyflwynwyd a nodwyd y canlynol:

1. Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith - cyflwynwyd a nodwyd
2. Gweithdy Cynllunio Lle – cofnodion cyfarfod cyntaf 22.5.2018

Llofnod.....Cadeirydd.....

CYNGOR CYMUNED LLANFAIR YN NEUBWLL

3. Cyngorau Tref a Chymuned - cofnodion a cais am fanylion cyswllt.
4. Rhaglen adeiladu tai cyngor - Nodwyd nad oedd y ddogfen ymgynghori a roddwyd i breswylwyr gan CSYM mewn perthynas â'r cynigion i adeiladu mwy o dai fforddiadwy ar Stad Tre Ifan wedi cael ei gyhoeddi'n brydlon ac o ganlyniad ni 4 wythnos o ymgynghoriad.
6. Cyngorau Tref a Chymuned – Gwefannau – cyflwynwyd llythyr gan y Pwyllgor Safonau yn gofyn am gadarnhad bod Cofrestr Datganiadau o Ddiddordeb y Cyngor wedi'i gyhoeddi ar y wefan - byddai'r clerch yn cadarnhau bod Llanfair yn Neubwll yn cydymffurfio.

7. Materion Ariannol

Yn y banc ar 19.6.2018 Cyfrif Cyfredol £11,562.60, Cyfrif Cadw £3,923.35

8. Taliadau i'w gwneud

Cyflog y clerch (Mai)	£187.40	HMRC	£46.90
GMS INV3672	£91.20	MacVenture Playgrounds	£1,650
Archwilydd Mewnol	£100		

Cytunwyd i dalu'r rhain (Cynnig Cyng. Einir Thomas, eilio Cyng. Victor Owen.)

9. Cyfrifon Terfynnol

Cafwyd cadarnhad gan yr archwiliwr mewnol fod y cyfrifon mewn trefn a chytunwyd y dylai'r Cadeirydd a'r clerch ardystio'r Ffurflen Flynyddol ac anfon y dogfennau priodol i'r Archwilwyr Allanol.

10. Gohebiaeth Eraill: cyflwynwyd a nodwyd y canlynol

1. Un Llais Cymru - Hyfforddiant .
2. Model Newydd – Rheolau Sefydlog – bydd y dod a rhain i'r cyfafod nesaf.

11. Unrhyw fater arall:

Nodwyd fod coed yn y cae chwarae yn achosi problem i drigolion 23 Treifan – gofynnwyd i'r clerch trefnu i'r canghennau gael eu torri.

12. Cyfarfod Nesaf – 17 Gorffennaf 2018

Llofnod.....Cadeirydd.....